

Dŵr Cymru
Welsh Water

# Y COD CYFLENWYR CYNALIADWY

I HELPU I DDARPARU'R GWASANAETH O'R SAFON UCHAF Y MAE EIN CWSMERIAID YN EI HAEDDU

# RHAGAIR

Mae ein byd wedi newid yn ddramatig mewn blynyddoedd diweddar, ac mae hynny'n cynnwys disgwyliadau ein cwsmeriaid, ein rhwymedigaethau amgylcheddol a'n ffocws ar wneud y penderfyniadau cywir heddiw er budd cenedlaethau'r dyfodol. Gair i ddisgrifio unrhyw bryder neu amddiffyniad amgylcheddol oedd cynaliadwyedd yn y gorffennol, ond i ni, mae'n golygu mwy o lawer na hynny, ac mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar ein gwaith fwy neu lai, gan gynnwys caffael. Dyna pam ein bod ni'n rhoi cynaliadwyedd wrth galon popeth a wnawn wrth gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau, o bryniannau untro i bartneriaethau gwerth uchel. Fel yr unig gwmni cyfleustod nid-er-elw yn y DU, mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi ymrwymo i gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau ein bod ni'n gweithio gyda chadwyn gyflenwi sy'n cynnal ein safonau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac yn rhannu ein gweledigaeth o welliannau parhaus.

Rydyn ni'n cydnabod bod y ffordd rydyn ni'n mynd ati i reoli'r tua £500 miliwn a wariwn gyda chyflenwyr bob blwyddyn yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at y flaenoriaeth hon.
Fel arwydd o'n hymrwymiad i weithio mewn ffordd foesegol a chynaliadwy, mae ein tîm caffael wedi cyflawni Achrediad Moeseg Gorfforaethol a statws Siartredig y Sefydliad Prynu a Chyflenwi (CIPS).

Mae ein Polisi Caffael Cynaliadwy a'n Cod Cyflenwyr Cynaliadwy yn dangos ymrwymiad Dŵr Cymru i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws yr ardal ddaearyddol lle'r ydym ni'n gweithredu. Bydd gweithio ar y cyd â'n cadwyn gyflenwi'n sicrhau ein bod ni wedi ein taclu'n dda i wynebu sialensiau parhaus ar lefel leol a byd-eang, a bydd yn ein taclu ni â'r offer i glustnodi'r meysydd allweddol o risg, mesur perfformiad, a gyrru gwelliannau parhaus o fewn ein cadwyni cyflenwi.

Nod ein Cod Cyflenwyr Cynaliadwy yw cynnig arweiniad a chefnogaeth i'n cadwyn gyflenwi er mwyn eu helpu i gyflawni ein gweledigaeth "i ennill ffydd ein cwsmeriaid pob un dydd" a helpu i adlewyrchu'r gwerthoedd rydym yn eu disgwyl gan ein gweithwyr ein hunain, ac y mae ein cwsmeriaid yn eu disgwyl gennym ni i gyd.

**Peter Perry**
Prif Weithredwr Dŵr Cymru

CIPS PROFESSIONAL
ETHICS

## EIN GWERTHOEDD...

- balch — **Balch** o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf
- ymddiried — **Ymddiried** ynom i wneud y peth iawn
- rhagoriaeth — **Rhagoriaeth** ym mhopeth a wnawn
- agored — **Agored** i syniadau newydd
- gonest — **Gonest** gyda phawb
- diogel — **Diogel** cyfrifoldeb pawb yw diogelwch
- Cydraddoldeb — **Cydraddoldeb** i bawb

Ein pwrpas yw darparu dŵr yfed a gwasanaethau amgylcheddol o safon uchel am werth gwell, er mwyn gwella lles ein cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn, nawr ac am genedlaethau i ddod.



# CYFLWYNIAD

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i fod yn agored, yn onest, yn dryloyw ac i gynnal y safonau moesegol a phroffesiynol uchaf. Rydyn ni'n cyflawni ein busnes ag uniondeb, nid dim ond er mwyn cydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol a rheoliadol, ond er mwyn darparu deilliannau cynaliadwy ar gyfer ein cwsmeriaid, cydweithwyr, cyflenwyr, yr amgylchedd a'r cymunedau lleol lle'r ydym ni'n darparu ein gwasanaethau hefyd.

Lle bo hynny'n ymarferol, rydyn ni'n cydymffurfio ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru er mwyn sicrhau'r gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor gorau posibl o'n gwariant.

Mae ein cadwyn gyflenwi'n chwarae rhan annatod ein galluogi ni i ddarparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein 3 miliwn o gwsmeriaid. Mae'r holl gyflenwyr yn rhan allweddol o weithrediad ein busnes, felly rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'r rhai sy'n gallu gweithredu i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn onest, a gweithredu ag uniondeb a moeseg busnes fel a bennir yn ein Cod Cyflenwyr Cynaliadwy.

**I BWY MAE EIN COD CYFLENWYR CYNALIADWY YN BERTHNASOL**

Mae ein Cod Cyflenwyr Cynaliadwy'n berthnasol i bawb sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau ar ein cyfer. At ddibenion y ddogfen hon, mae "cyflenwyr" yn cynnwys yr holl gyflenwyr, contractwyr, isgontractwyr, darparwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau proffesiynol, ymgynghorwyr, canolwyr, ac asiantau o fewn ein cadwyn gyflenwi.

Mae ein Cod Cyflenwyr Cynaliadwy yn berthnasol i'n cadwyn gyflenwi i gyd. Cyfrifoldeb yr holl gyflenwyr yw ffrydio'r egwyddorion i lawr trwy eu cadwyni cyflenwi eu hunain.


Ni fwriedir i'n Cod Cyflenwyr Cynaliadwy fynd yn groes i neu ddiwygio unrhyw delerau a chontractau sy'n bodoli rhwng Dŵr Cymru (neu unrhyw is-gwmni) a'n cyflenwyr. Os oes unrhyw wrthdaro, telerau unrhyw gontract penodol a gymeradwywyd fydd drechaf.

# BETH YW CAFFAEL CYNALIADWY?

"Dull o weithredu o ran y broses gaffael sy'n gosod materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) ac arferion Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) wrth galon ei fanylebau a'i brosesau yw caffael cynaliadwy – Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi"

## EIN DYHEADAU O RAN CAFFAEL CYNALIADWY

Mae Dŵr Cymru wedi clustnodi'r dyheadau allweddol canlynol yn ein Polisi Caffael Cynaliadwy. Mae'r rhain wedi eu grwpio yn ôl tair thema sef: Diogelu'r amgylchedd, Cyfrifoldeb cymdeithasol, Ffyniant economaidd, gyda ffocws parhaus ar iechyd, diogelwch a llesiant, llywodraethiant a gwelliannau parhaus. Mae esboniad pellach o'r rhain dros y ddalen.



# DIOGELU'R AMGYLCHEDD



Mae angen i Ddŵr Cymru a'n cyflenwyr addasu ein dulliau o ddarparu ein gwasanaethau er mwyn caniatáu i ni liniaru'r sialensiau amgylcheddol fydd yn ein hwynebu dros y blynyddoedd a'r degawdau nesaf.

Mae diogelu'r amgylchedd nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn rhan annatod o'r gwasanaethau a ddarparwn. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'n cyfreithiau, rheoliadau a safonau amgylcheddol, a'n safonau ansawdd amgylcheddol ni ein hunain i amddiffyn yr amgylchedd a amlinellwyd yn 'Dŵr Cymru 2050'.

Ni allwn gyflawni'r ymrwymiad yma heb ymgysylltiad a chefnogaeth weithredol ein cadwyn gyflenwi.

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD

## ÔL TROED CARBON

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cynyddol lleihau ein hallyriannau carbon, a byddwn ni'n gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi i leihau allyriannau carbon Cwmpas 3 yn gyson â Siwrnai i Sero Net Dŵr Cymru.

## BIOAMRYWIAETH

Mae gennym strategaeth a chynllun Bioamrywiaeth sy'n pennu ein huchelgeisiau. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n gofyn i'n cadwyn gyflenwi ddangos ymwybyddiaeth am Fioamrywiaeth a sut y gall gweithgareddau effeithio ar hyn. Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth trwy arferion gorau a lliniaru risgiau ar draws ein cadwyn gyflenwi.

## ÔL TROED DŴR

Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â'n cadwyn gyflenwi i leihau ein hôl troed dŵr, gan gymryd defnydd o gynnyrch a deunyddiau, a'r dewis o drafnidiaeth a thechnoleg i ystyriaeth yn seiliedig ar yr effaith amgylcheddol.

## ECONOMI CYLCHOL

Byddwn ni'n gofyn bod ein cadwyn gyflenwi'n clustnodi cyfleoedd i gefnogi'r economi cylchol, yn lleihau faint o wastraff a gynhyrchir, gan gynnwys plastigion untro, ac yn dilyn yr hierarchaeth gwastraff, lle gwaredu fydd yr opsiwn olaf un.

Er mwyn helpu i amddiffyn ein hamgylchedd, mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i gyflawni dyfodol sero net. Mae hyn yn gofyn am ddull cydweithredol o weithredu, a thrwy weithio gyda chyflenwyr o'r un anian, gallwn gyflawni ein gweledigaeth ni'n dau.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Fod yn ymwybodol o'r holl gyfreithiau a rheoliadau amgylcheddol perthnasol a chydymffurfio â nhw.
- Rhoi cynlluniau lleihau carbon ar waith ar gyfer allyriannau cwmpas 3.
- Rhoi mesurau rheoli priodol ar waith o ran rheolaeth, gweithrediad a phrosesau er mwyn lleihau faint o allyriannau niweidiol sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd.
- Ystyried effaith amgylcheddol eu gweithrediadau a lleihau eu defnydd o ynni a dŵr, ac atal gwastraff lle bynnag y bo modd.
- Dileu'r risg o'r gadwyn gyflenwi, gan gymryd eu defnydd o gynhyrchion a deunyddiau, a'u dewis o drafnidiaeth a thechnoleg i ystyriaeth yn seiliedig ar yr effaith amgylcheddol.
- Sicrhau eu bod wedi diogelu'r holl drwyddedau a chaniatadau amgylcheddol ar gyfer eu gweithrediadau, a bod eu gweithrediadau'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.

# CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

Rydyn ni'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymuned. Rydyn ni wedi ymrwymo i gydnabod a hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb, ac i drin pobl ag urddas â pharch bob amser, gan hybu diwylliant lle mae cwsmeriaid a'n cadwyn gyflenwi'n cael eu gwerthfawrogi mewn ffordd gadarnhaol.

Mae sefydlu Cynaliadwyedd a dileu Caethwasiaeth Fodern yn allweddol i'n prosesau Caffael. Nod ein dull o weithredu o ran caffael cynaliadwy a moesegol yw bod yn gyson ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).



# CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

## CODI YMWYBYDDIAETH AM GAETHWASIAETH FODERN

Byddwn ni'n gweithio i godi ymwybyddiaeth am y risg o Gaethwasiaeth Fodern trwy ein cadwyn gyflenwi. Rydyn ni'n mynnu cydymffurfiaeth â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a byddwn ni'n ymdrechu i hybu lefelau cynyddol o dryloywder yn ein cadwyni cyflenwi mewn meysydd lle'r ystyrir bod risg.

## CYFLEOEDD AR GYFER Y TRYDYDD SECTOR

Byddwn ni'n gweithio'n rhagweithiol i hybu cyfleoedd ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector, ac yn hybu cysylltiadau â mentrau cymdeithasol a busnesau a gynorthwyir.

## YMGYSYLLTU CYMUNEDAU

Byddwn ni'n adolygu'r potensial i greu cyfleoedd i hyfforddi a recriwtio pobl sy'n economaidd anweithgar, gan greu cyfleoedd newydd am gyflogaeth a hyfforddiant a hybu cysylltiadau cymunedol yn y cymunedau a wasanaethwn.

## CYNWYSOLDEB AC AMRYWIAETH

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb, a byddwn ni'n adolygu cynwysoldeb ac amrywiaeth trwy'r broses o ddethol cyflenwyr ac ar draws ein cadwyn gyflenwi.

## CYNORTHWYO MENTRAU I ADDYSGU CYFLENWYR

Byddwn ni'n gweithio i adolygu'r potensial ar gyfer cynorthwyo mentrau addysgu cyflenwyr, sy'n cyfrannu at addysg yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd â'r nod o ysbrydoli diddordeb mewn STEM.

Rydyn ni wedi datblygu cynlluniau i reoli'r gadwyn gyflenwi er mwyn helpu i reoli, gwella a mynd i'r afael â risgiau cymdeithasol ac unrhyw effeithiau andwyol. Rydyn ni'n gofyn bod ein cadwyn gyflenwi'n gwneud yr un fath a'u bod yn cydymffurfio â meini prawf cymdeithasol ac o ran hawliau dynol yn eu gweithrediadau ac yn eu cadwyni cyflenwi ehangach.

## CAETHWASIAETH FODERN

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i gyflawni nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydyn ni'n gadarn iawn ein gwrthwynebiad i gaethwasiaeth, masnachu pobl a llafur plant, ac rydyn ni'n gweithio i godi ymwybyddiaeth am risgiau ar draws y busnes ac yn ein cadwyni cyflenwi. Ni fyddwn felly'n goddef caethwasiaeth a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes. Cael pobl i ymddiried ynom i wneud y peth iawn yw un o'n gwerthoedd craidd. Ni fyddem byth yn defnyddio cyflenwyr neu gontractwyr sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth neu fasnachu pobl yn ymwybodol, ac rydyn ni'n cadw'r hawl i derfynu ein cytundebau ag unrhyw drydydd parti y ceir eu bod wedi cymryd rhan mewn arferion o'r fath.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
- Peidio ag ecsbloetio eu gweithluoedd a'u cyflenwyr.
- Rhoi mesurau ar waith i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern, llafur plant na masnachu pobl yn digwydd yn eu cadwyn gyflenwi nac yn unrhyw ran o'u busnes. Rhaid cadw pob llwybr archwilio o ran cydymffurfiaeth.

## DIOGELWCH PLANT AC OEDOLION SYDD MEWN PERYGL

Mae Dŵr Cymru'n cadw diogelwch plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddifri, ac am hynny mae'n ceisio sicrhau bod arferion diogel yn cael eu hymgorffori i'n holl brosesau. Mater o amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag camdriniaeth neu ddiofalwch yw diogelu. Mae cyfrifoldeb arnom ni i gyd i sicrhau ein bod ni'n gwneud beth y gallwn ni i amddiffyn yr aelodau mwyaf bregus o'n cymdeithas. Mae disgwyl i gyflenwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys neu a allai gynnwys cysylltiad â, effaith ar, neu waith gyda phlant/oedolion sydd mewn perygl fabwysiadu'r un ymrwymiad.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Sefydlu trefniadau diogelu cadarn, sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u rheoli'n ddiogel.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cael archwiliadau DBS.
- Siarad allan a dweud wrthym am unrhyw broblemau neu amheuon o ran diogelwch plant ac oedolion sydd mewn perygl.

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb, a thrin eraill ag urddas a pharch bob amser. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu nad ydym yn gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd ar sail rhyw, hil, crefydd neu gredo, cyfeiriadaeth rywiol, anabledd, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth, a phartneriaeth sifil neu ailbennu rhywedd.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**


- Gynnal gweithleoedd sydd wedi eu nodweddu gan broffesiynoliaeth, a pharch at urddas pob unigolyn y mae eu gweithwyr yn rhyngweithio â nhw.
- Parchu amrywiaeth eu gweithwyr, cwsmeriaid a phobl eraill y maent yn rhyngweithio â nhw, a bod â rhaglenni pwrpasol i hybu amrywiaeth ar draws eu rhwydwaith.
- Peidio â goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.
- Siarad allan a dweud wrthym os ydyn nhw'n gweld bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu anghyfreithlon yn eich perthynas â ni.

## CAETHWASIAETH FODERN

Darllenwch ein Datganiad Gwrth-gaethwasiaeth o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, sy'n cynnwys y camau rydyn ni'n eu cymryd i sicrhau bod Caethwasiaeth Fodern yn cael ei ddileu'n llwyr o'n cadwyni cyflenwi.

I ategu ein hagenda Gwrth-gaethwasiaeth, rydyn ni'n dewis cyflenwyr sy'n ymddwyn mewn ffordd foesegol a chynaliadwy.

Rydyn ni'n annog ein holl gyflenwyr i siarad allan a dweud wrthym am unrhyw broblem neu amheuaeth o gaethwasiaeth fodern mewn unrhyw ran o Ddŵr Cymru neu ei gadwyn gyflenwi. Gallwch ddarllen ein Polisi Chwythu'r Chwiban yma.



# FFYNIANT ECONOMAIDD

Mae Dŵr Cymru'n cyfrannu dros £1bn at economi Cymru bob blwyddyn, ac rydyn ni'n disgwyl i hynny gynyddu eto fyth dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni chwilio am gyfleoedd i wella ein heffaith leol eto.

Mae cyfrifoldeb arnom i ddangos ein cyfraniad at y gymdeithas ar raddfa ehangach, ac rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn fusnes cyfrifol ym mhopeth a wnawn. Wrth brynu nwyddau a gwasanaethau neu waith, byddwn ni'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth gorau ac yn darparu cyfleoedd i gyflawni buddion ehangach ar gyfer pobl, yr economi a'r amgylchedd.

# FFYNIANT ECONOMAIDD

## EFFAITH AR YR ECONOMI LLEOL

Byddwn ni'n ceisio clustnodi cyfleoedd i gynyddu gwariant lleol a gwella effaith economaidd leol gwariant Dŵr Cymru ar raddfa leol, gan gynnwys cyfleoedd i gaffael nwyddau wedi eu huwchgylchu.

## YR ECONOMI SYLFAENOL A BBACH

Byddwn ni'n gweithio i hyrwyddo cadwyni cyflenwi agored a hygyrch sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer busnesau yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o'r Economi Sylfaenol a BBaCh.

## GWELLA'R GADWYN GYFLENWI'N BARHAUS

Byddwn ni'n darparu arweiniad ac adborth adeiladol ar gyfer y gadwyn gyflenwi er mwyn hybu gwelliannau parhaus.

## CYFLOG BYW

Mae sicrhau bod pawb sy'n gweithio dros Ddŵr Cymru'n cael tâl teg am eu gwaith yn rhywbeth rydyn ni'n angerddol yn ei gylch. Cydnabyddir ein bod ni'n gwmni sy'n sicrhau tâl teg am ddiwrnod caled o waith – ag achrediad Cyflogwr Cyflog Byw y Sefydliad Cyflogau Byw. Rydyn ni'n annog ein holl bartneriaid yn y gadwyn gyflenwi i dalu Cyflog Byw.

## TALU'N BRYDLON

Rydyn ni'n annog ein holl gyflenwyr i fabwysiadu taliadau prydlon ar gyfer eu hisgontractwyr yn unol ag egwyddorion y Cod Taliadau Prydlon.

## DIGWYDDIADAU CWRDD Â'R PRYNWR

Byddwn ni'n gweithio i hwyluso digwyddiadau cwrdd â'r prynwr er mwyn rhoi cyfle i'r gadwyn gyflenwi glywed am gyfleoedd tendro sydd ar y gweill. Bydd y digwyddiadau hyn yn cynnig mynediad digynsail at y prynwyr a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar draws Dŵr Cymru.

**EFFAITH DŴR CYMRU YNG NGHYMRU, EI WEITHLU A'R ECONOMI LLEOL**

Rydyn ni wedi ffurfio partneriaeth ag uned Ymchwil i Economi Cymru Prifysgol Caerdydd yn ddiweddar i fapio effaith Dŵr Cymru yng Nghymru, ei weithlu a'r economi lleol.

Am bob £1m o wariant uniongyrchol ar staff a chyflenwyr yng Nghymru, mae £0.58 pellach yn cael ei gynhyrchu.

Am bob swydd FTE yn DCWW, mae 1.64 pellach yn cael eu cynhyrchu mewn rhannau eraill o'r economi.

Mae cyfanswm gwariant Dŵr Cymru ar gyflogau, sy'n cael eu cadw yng Nghymru, bron i £400m y flwyddyn.

Mae ein cyfraniad o ran 'Gwerth Ychwanegol Gros' (neu GVA, sef y mesur o wir 'werth' gweithgarwch economaidd i Gymru) wedi cynyddu mwy nag 20% ers 2013.

Dŵr Cymru yw un o gwmnïau 'angori' mwyaf blaenllaw Cymru.

Amcangyfrifir fod Dŵr Cymru'n cyfrannu mwy nag £1 biliwn at economi Cymru pob blwyddyn, ac mae'n cynnal mwy na 9,100 o swyddi ar draws Cymru.

Uned Ymchwil i Economi Cymru Prifysgol Caerdydd (2023)



# IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Un o werthoedd craidd Dŵr Cymru yw 'Mater i Bawb yw Diogelwch'. Mae iechyd, diogelwch a lles pawb y mae ein gwaith yn effeithio arnynt yn hanfodol bwysig i ni.

Rydyn ni am weithio gyda chwmnïau sy'n rheoli eu risgiau'n effeithiol ac yn credu mewn cydweithio er mwyn darparu gwasanaeth diogel ar gyfer ein cwsmeriaid.

Mae hi'n hanfodol i'n diwylliant o ddiogelwch fod pawb sy'n gweithio ochr yn ochr â Dŵr Cymru'n cyflawni eu gweithgareddau'n ddiogel, a'u bod yn rhoi iechyd, diogelwch a llesiant wrth galon popeth y maent yn ei wneud. Diogelwch ein gweithwyr, cwsmeriaid, partneriaid busnes, cyflenwyr a chymunedau yw'r peth pwysicaf un i ni. Er mwyn sicrhau hyn, rydyn ni'n disgwyl bod systemau cadarn o ran iechyd galwedigaethol a rheoli diogelwch mewn grym, gan fabwysiadu arferion gorau a chymryd rhan mewn gwelliannau parhaus o ran perfformiad.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**


- Gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau, codau ymarfer a gofynion perthnasol eraill o ran iechyd a diogelwch.
- Dangos ymrwymiad cadarn i ddarparu gweithle diogel, lle iechyd, diogelwch a llesiant yr holl weithwyr, cwsmeriaid a thrydydd partion yw'r peth pwysicaf un.
- Darparu hyfforddiant ac offer digonol i sicrhau bod gweithwyr yn gallu gwneud eu gwaith.
- Clustnodi a rheoli'r risgiau sy'n deillio o'u gweithgareddau, gan sicrhau bod systemau gwaith diogel, goruchwyliaeth a rheolaeth ddiogel yn bodoli ac yn cael eu monitro'n effeithiol.
- Sicrhau bod gan unrhyw sefydliadau sy'n gweithio ar eu rhan (e.e. isgontractwyr) drefniadau iechyd a diogelwch digonol ,a'u bod yn monitro eu perfformiad.
- Rhoi prosesau cadarn ar waith ar gyfer cofnodi, cyfeirio ac ymchwilio i ddigwyddiadau, a chasglu a chyfleu'r gwersi a ddysgir er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto.
- Siarad allan a dweud wrthym os gwelwch chi rywbeth, neu os gofynnir i chi wneud rhywbeth nad yw'n ddiogel yn eich barn chi.
- Gweithio gyda ni, ein cyflenwyr a sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth berthnasol am reoli risgiau i iechyd, diogelwch a llesiant.

## DEFNYDDIO CYFFURIAU NEU ALCOHOL

Mae gennym bolisi dim goddefgarwch i ddefnyddio cyffuriau ac alcohol ar unrhyw un o'n safleoedd neu yn ein swyddfeydd. Ar ein safleoedd, wrth weithio ar ran Dŵr Cymru neu wrth gynrychioli neu gael eu gweld yn cynrychioli Dŵr Cymru, rhaid i gyflenwyr beidio â bod dan effaith alcohol neu gyffuriau neu fod ag alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon yn eu meddiant.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Siarad allan os ydyn nhw'n amau bod unigolyn arall sy'n gweithio ar ein rhan dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol yn y gwaith.
- Arddel agwedd gyfrifol at alcohol ac ymddwyn yn gall mewn unrhyw achlysuron sy'n gysylltiedig â gwaith y tu hwnt i oriau gwaith.




# LLYWODRAETHIANT

## GWEITHREDU AG UNIONDEB

Mae Llywodraethiant Corfforaethol da yn cynhyrchu gwerth ar gyfer ein rhanddeiliaid, ac yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Rydyn ni'n cydnabod bod angen i lywodraethiant da fod yn sail ar gyfer ein holl benderfyniadau fel rhan allweddol o'n hymrwymiad i Ennill Ffydd ein Cwsmeriaid Bob Un Dydd. Rydyn ni'n disgwyl i gyflenwyr ymddwyn mewn ffordd foesegol a chydymffurfio â gofynion y gyfraith a'r diwydiant.

## LLWGRWOBRWYO A LLYGREDIGAETH

Mae gan Ddŵr Cymru bolisi dim goddefgarwch o ran llwgrwobrwyo a llygredigaeth, ac mae'r cwmni wedi ymrwymo i weithredu a gorfodi systemau effeithiol i'w hatal. Rydyn ni'n mynnu bod pawb sy'n gweithio gyda ni'n gweithredu'n onest ac ag uniondeb bob amser.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Gyflawni eu busnes mewn ffordd sy'n onest, yn deg ac yn rhydd o unrhyw lwgrwobrwyo neu lygredigaeth.
- Peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithred anghyfreithlon nac amhriodol.
- Peidio â derbyn taliadau neu ddyfarniadau, na'u cynnig, eu haddo, dylanwadu'n amhriodol arnynt, na'u hawdurdodi'n gyfnewid am fudd personol, ariannol neu fel arall.
- Cynnal polisïau priodol i atal llwgrwobrwyo.
- Siarad allan a dweud wrthym os oes unrhyw amheuaeth fod llwgrwobrwyo neu lygredigaeth yn digwydd.

## LLETYGARWCH, RHODDION AC ADLONIANT

Ni chaniateir i weithwyr Dŵr Cymru dderbyn lletygarwch, rhoddion nac adloniant na chynnig lletygarwch, rhoddion neu adloniant o dan unrhyw amodau. Rydyn ni'n mynnu bod gweithwyr yn cofnodi unrhyw gynigion am letygarwch, rhoddion ac adloniant.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Fod, a chael eich gweld i fod, yn deg, yn ddiduedd ac yn ddiragfarn bob amser
- Peidio â chynnig lletygarwch, rhoddion neu adloniant i weithwyr Dŵr Cymru o dan unrhyw amgylchiadau.
- Peidio â derbyn lletygarwch, rhoddion neu adloniant gan weithwyr Dŵr Cymru o dan unrhyw amgylchiadau.
- Siarad allan a rhoi gwybod i ni os oes unrhyw amheuaeth bod lletygarwch, rhoddion neu adloniant yn cael eu cynnig neu eu derbyn.

## DETHOL GWERTHWYR A PHERTHNASAU

Rydyn ni'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gaffael berthnasol ac yn cymryd cydymffurfiaeth â'r gyfraith ar gystadleuaeth o ddifri. Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i gyflawni ein gweithgareddau busnes mewn ffordd deg ac agored bob amser gan gydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Gydymffurfio â'r cyfreithiau, rheolau a rheoliadau perthnasol ar gaffael cyhoeddus a chystadleuaeth.
- Peidio ag ymgysylltu ei gystadleuwyr neu ei gyflenwyr ei hun mewn ffordd sy'n cyfyngu'n amhriodol ar gystadleuaeth.
- Rhoi prosesau monitro a sicrwydd priodol ar waith er mwyn atal ymddygiad gwrth-gystadleuol.
- Cynnal hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Siarad allan a rhoi gwybod i ni os oes yna amheuaeth fod ymddygiad gwrth-gystadleuol wedi bod.

Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein cadwyn gyflenwi ac mewn dethol cyflenwyr priodol. Rydyn ni wedi ymrwymo i gontractio â sefydliadau ag enw da sy'n cydymffurfio â'r Cod Cynaliadwyedd yma.

Mae'r holl archwiliadau'n cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith caffael a chanllawiau ar arferion gorau. Rydyn ni'n disgwyl i'n cyflenwyr weithredu mewn ffordd gyfrifol a moesegol. Yn unol â hynny, fel ein cyflenwr, rhaid i chi sicrhau bod eich holl weithwyr, asiantau ac isgontractwyr cymeradwy yn ymwybodol o ofynion y Cod Cyflenwyr Cynaliadwy. Cysylltwch â ni os oes unrhyw gwestiynau gennych.

Rydyn ni'n cadw'r hawl i fonitro ac archwilio cydymffurfiaeth pob cyflenwr â'r Cod Cyflenwyr. Os na chynhelir cydymffurfiaeth, gellir adolygu'r berthynas busnes a chymryd camau cywiro'n gyson â thelerau'r contract penodol o dan sylw, a pholisi Dŵr Cymru ar ddatgymhwyso cyflenwyr.

## CONTRACTIO GWAITH ALLAN AC IS-GONTRACTIO

Rydyn ni'n cydnabod bod contractio gwaith allan yn arfer y gall cyflenwyr ei ddefnyddio i hybu arloesi, llenwi bylchau mewn adnoddau, a/neu sicrhau darbodaeth weithredol. Rydyn ni'n cydnabod y gall fod angen i gyflenwyr ddefnyddio isgontractwyr wrth ddarparu gwasanaethau hefyd.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Adrodd ar lefel y gwasanaethau sy'n cael eu his-gontractio wrth ddarparu eu gwasanaethau ar gyfer Dŵr Cymru mewn ffordd amserol.
- Monitro'r trefniadau contractio allan neu is-gontractio er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau contractiol y cyflenwyr, ac â'r Cod Cyflenwyr Cynaliadwy yma, gan ddarparu tystiolaeth o waith monitro o'r fath ar gais.

## GWRTHDARO BUDDIANNAU

Gall gwrthdaro buddiannau ddigwydd os oes gan unigolyn fuddiant preifat neu bersonol y gellid ystyried ei fod yn dylanwadu ar yr hyn a ddylai fod yn benderfyniad busnes gwrthrychol.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Beidio â cheisio sicrhau mantais amhriodol neu driniaeth flaenoriaethol trwy unrhyw berthnasau sydd ganddynt â Dŵr Cymru.
- Osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau neu sefyllfaoedd sy'n rhoi'r ddelwedd o wrthdaro buddiannau wrth gyflawni busnes gyda Dŵr Cymru.
- Ein hysbysu ni'n brydlon am unrhyw achosion lle mae gwrthdaro buddiannau go iawn neu ymddangosol rhwng buddiannau'r cyflenwyr a rhai Dŵr Cymru, fel buddiant personol neu ariannol uniongyrchol mewn penderfyniad busnes neu wrth ddewis gwerthwr.
- Cychwyn unrhyw berthynas fusnes gydag unrhyw gyfarwyddwr, gweithiwr neu gynrychiolydd o Ddŵr Cymru a allai achosi gwrthdaro yn eu rhwymedigaethau i Ddŵr Cymru, neu i'n buddiannau, heb ein hysbysu ni ymlaen llaw.
- Siarad allan a dweud wrthym ni os oes unrhyw amheuaeth nad yw gwrthdaro buddiannau go iawn neu ymddangosol yn cael eu datgan.

## TWYLL A DWYN

Mae gennym bolisi dim goddefgarwch o ran twyll a dwyn, ac rydyn ni wedi ymrwymo i weithredu a gorfodi systemau effeithiol i atal y rhain. Byddwn ni'n cymryd camau priodol os bydd digwyddiad yn codi.

Diffinnir twyll fel 'cam-drin statws, ffug-gynrychiolaeth, neu gyfaddawdu hawliau rhywun er budd personol'. Diffinnir dwyn fel 'meddiannu eiddo sy'n eiddo i rywun arall yn anonest â'r bwriad o amddifadu'r person arall ohono'n barhaol'.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Ddiogelu unrhyw asedau sy'n eiddo i Ddŵr Cymru.
- Sicrhau bod eu prosesau a'u gweithdrefnau ar gyfer clustnodi a rheoli twyll yn gadarn.
- Cadw cofnodion cywir a chyflawn am eu holl drafodion busnes gyda Dŵr Cymru.
- Siarad allan a rhoi gwybod i ni os oes unrhyw amheuaeth bod dwyn neu dwyll wedi digwydd.

## SEIBERDDIOGELWCH

Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol am ein cwsmeriaid, cydweithwyr neu trydydd parti cysylltiedig â'n cyflenwyr. Mae'n bosibl y gall cyflenwyr gyrchu gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol am Ddŵr Cymru.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Brosesu unrhyw wybodaeth sensitif neu bersonol sy'n cael ei rhannu er mwyn diwallu unrhyw ofynion contractiol yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ar breifatrwydd data yn y DU, fel Deddf Diogelu Data 2018.
- Defnyddio gwybodaeth sy'n dod i'w meddiant trwy eu perthynas â ni at y pwrpas a ddiffinnir yn unig.
- Prosesu a storio gwybodaeth fel y cytunir gyda Dŵr Cymru.
- Darparu gwybodaeth trwy ein platfform rheoli diogelwch trydydd parti er mwyn caniatáu i ni bwyso a mesur eu statws o ran diogelwch.
- Bod â pholisïau a gweithdrefnau seiberddiogelwch mewnol cyfredol a pherthnasol sy'n cynnwys defnyddio ein gwybodaeth.
- Hysbysu Dŵr Cymru'n brydlon am unrhyw achosion go iawn neu amheuon o dor-breifatrwydd, tor-ddiogelwch neu golli ein gwybodaeth, a'n cynorthwyo ni i reoli unrhyw oblygiadau sy'n deillio o ddigwyddiadau o'r fath. (0303 3130303)

Mae methu â diogelu gwybodaeth sensitif a chyfrinachol yn gallu cael effaith sylweddol ar y busnes. Rydyn ni'n rheoli bygythiadau allanol o ran seiberddiogelwch yn unol â gofynion ein rheolwyr a'n rheoleiddwyr.

**Lle bo hynny'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir, mae Dŵr Cymru'n disgwyl i bob cyflenwr:**

- Gyflawni gwerthusiad o'u statws diogelwch.
- Amddiffyn ein gwybodaeth sensitif a chyfrinachol, gan weithredu'n unol â chyfreithiau diogelu data'r DU ac arweiniad sefydliadau fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).
- Cyfyngu ar fynediad at wybodaeth sensitif a chyfrinachol i'r bobl sydd ei hangen yn unig.
- Ein hysbysu ni am achosion o dor-seiberddiogelwch, dim ots a allent effeithio ar Ddŵr Cymru ai peidio.

## AMDDIFFYN ASEDAU DŴR CYMRU

Mae rhwymedigaeth ar Ddŵr Cymru i amddiffyn ein hasedau rhag troseddoldeb a therfysgaeth. Gall hyn fod ar sawl ffurf; mae'r rôl y mae ein cadwyn gyflenwi'n ei chwarae yn hanfodol wrth ddiogelu ein hasedau a chynnal ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau.

**Mae Dŵr Cymru'n disgwyl i'w holl gyflenwyr:**

- Sicrhau bod yr holl staff a staff unrhyw isgontractwyr yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch personél ar gyfer cyflogaeth yn y DU.
- Tystiolaethu effeithiolrwydd eu trefniadau diogelwch cyfredol.
- Sicrhau eu bod nhw'n cadw at eu cyfrifoldebau diogelwch a'u bod yn cynnwys unrhyw ofynion cysylltiedig o ran diogelwch mewn unrhyw is-gontractau y maent yn eu dyfarnu.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn deall eu cyfrifoldeb i amddiffyn ein gwybodaeth contractiol a nwyddau a gwasanaethau dan gontract mewn ffordd briodol.
- Dilyn unrhyw ofynion diogelwch gofynnol y mae Dŵr Cymru'n eu pennu sy'n gymesur â'r gwasanaethau a ddarperir.
- Sefydlu polisïau a gweithdrefnau diogelwch mewnol cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys pennu aelod penodol o staff uwch i fod yn gyfrifol am ddiogelwch.
- Sicrhau bod staff allweddol (e.e. caffael, diogelwch, marchnata) yn deall y risgiau i ddiogelwch, yn ogystal â'u cyfrifoldebau i helpu i'w rheoli.
- Darparu gwybodaeth trwy ein platfform rheoli diogelwch trydydd parti er mwyn caniatáu i ni bwyso a mesur eu statws o ran diogelwch.
- Ein hysbysu ni'n brydlon am unrhyw achosion go iawn neu bosibl o dor-ddiogelwch neu golli ein gwybodaeth, a'n helpu ni i reoli unrhyw oblygiadau sy'n deillio o ddigwyddiadau o'r fath.
- Ein hysbysu ni am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelwch ffisegol a phersonél fel y gallwn helpu a chynnig cyngor.
- Ein cynorthwyo ni ag unrhyw archwiliadau diwydrwydd dyledus sy'n ymwneud â diogelwch.

### AMDDIFFYN ASEDAU DŴR CYMRU

Fel cwmni, mae deddfwriaeth a rheoliadau yn mynnu ein bod ni'n sicrhau bod ein diogelwch ffisegol a phersonél o safon uchel. Rydyn ni'n llwyr ddisgwyl i'n cyflenwyr fodloni'r safonau yma hefyd. Byddwn ni'n cynorthwyo cwmnïau yn ymarferol trwy gynnig cyngor ac arweiniad os gofynnir i ni wneud hynny.

**Lle bo hynny'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir, mae Dŵr Cymru yn disgwyl i bob cyflenwr:**

- Ddarparu gwybodaeth trwy ein platfform rheoli diogelwch trydydd parti er mwyn caniatáu i ni bwyso a mesur eu statws o ran diogelwch.
- Sicrhau bod yr holl staff a staff unrhyw isgontractwyr yn dilyn safonau diogelwch personél er mwyn galluogi gyflawni gofynion cyflogaeth yn y DU.
- Dilyn unrhyw ofynion diogelwch gofynnol y mae Dŵr Cymru'n eu pennu sy'n gymesur â'r gwasanaethau a ddarperir.
- Sefydlu polisïau a gweithdrefnau diogelwch mewnol cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys pennu aelod penodol o staff uwch i fod yn gyfrifol am ddiogelwch.
- Hysbysu Dŵr Cymru am unrhyw bryderon sydd gennych am ddiogelwch ffisegol ac o ran personél.
- Sicrhau bod unrhyw wybodaeth sensitif am asedau Dŵr Cymru, nad ystyrir eu bod yn hanfodol i'r seilwaith cenedlaethol, yn cael ei datgelu.

# GWELLA'N BARHAUS

Mae Dŵr Cymru'n bartner balch i Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi. Rhaglen ar y cyd rhwng cleientiaid, contractwyr a'u cyflenwyr haen gyntaf sydd am feithrin sgiliau eu cadwyni cyflenwi yw hon.

Mae'r cysylltiad hwn yn cynnig cyfle i gyrchu'r amrywiaeth eang o ddeunyddiau dysgu sydd gan Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi i'w cynnig, a hyfforddiant DPP achrededig. Mae Dŵr Cymru'n defnyddio'r berthynas hon i hwyluso addysg ein gweithwyr mewnol, ac maent wedi ehangu'r peth i'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi er mwyn datblygu eu dull o weithredu o ran cynaliadwyedd. Gall cyflenwyr gyrchu Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi a'r holl ddeunyddiau dysgu am ddim trwy eu gwefan supplychainschool.co.uk.

Mae ein partneriaethau ag Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi yn ategu ein hymrwymiad i wella'n barhaus a chynorthwyo ein cadwyn gyflenwi ar ein siwrnai caffael cynaliadwy.

Mae Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi'n gyrru gwelliannau parhaus trwy eu gallu i fod yn "gydweithredol, yn effeithiol, yn ysbrydoledig ac yn gynhwysol, i ysbrydoli degau o filoedd o unigolion bob blwyddyn trwy gyfuniad o arbenigwyr pwnc o'r diwydiant a hyfforddiant ac adnoddau o safon uchel. Mae mwy na 200 o gwmnïau Partner yn ariannu'r Ysgol, ac mae hyn yn helpu i gynorthwyol miloedd o BBaCh yn y gadwyn gyflenwi trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau o safon y diwydiant ar eu cyfer am ddim yn y pwynt defnyddio".



SUPPLY CHAIN SUSTAINABILITY SCHOOL PARTNER

## SIARAD ALLAN

Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud y peth iawn ac rydyn ni'n annog cyflenwyr i siarad allan am unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd â'r egwyddorion a bennir yn ein Cod Cyflenwyr Cynaliadwy heb ofni dial. Nid yw dial ar unrhyw un sy'n siarad allan yn dderbyniol.

Yn y lle cyntaf, gall cyflenwyr godi cwestiynau neu bryderon trwy siarad â'u person cyswllt dynodedig yn Dŵr Cymru.

Os yw cyflenwyr yn teimlo'n anghyffyrddus am godi pryderon yn y modd yma, neu trwy eu gweithdrefnau chwythu'r chwiban eu hunain, gallant gysylltu â'n Tîm Archwilio Mewnol; sef tîm annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor Archwilio'r Grŵp.

Cysylltwch ag: **internal.audit@dwrcymru.com**

For questions regarding this document, please contact the DCWW Procurement team via **supplier.queries@dwrcymru.com**

Dŵr Cymru
Welsh Water